# CFfI CYMRU
# WALES YFC

**Gwledd Adloniant**
**Entertainment Feast**
Rhyl



## 03 - 04/03/2018

Cystadlaethau a Rheolau
Competitions and Rules

Dyddiad Cau
Closing Date
**23/02/2018**



# CYNNWYS – CONTENTS


| CYSTADLEUAETH \| COMPETITION | RHIF TUDALEN \| PAGE NUMBER |
|---|---|
| PANTOMEIM ADRAN GYMRAEG<br>WELSH LANGUAGE PANTOMIME | **3** |
| PANTOMEIM ADRAN SAESNEG<br>ENGLISH LANGUAGE PANTOMIME | **8** |
| AELOD IAU Y FLWYDDYN<br>JUNIOR MEMBER OF THE YEAR | **13** |
| AELOD HYN Y FLWYDDYN<br>SENIOR MEMBER OF THE YEAR | **16** |

## PANTOMEIM ADRAN GYMRAEG
## WELSH LANGUAGE PANTOMIME

| | |
|---|---|
| **LLEOLIAD**<br>Cynhelir y rowndiau terfynol ar 3 a 4 Mawrth 2018 ym Mhafiliwn y Rhyl, Gogledd Cymru. | **VENUE**<br>The finals will be held on the 3rd & 4th March 2018 at Rhyl Pavilion, North Wales. |
| **CYNRYCHIOLAETH**<br>Gall un tîm o bob sir gystadlu yn rowndiau terfynol Cymru. | **REPRESENTATION**<br>Counties may enter one team for the Wales final. |
| **CYMHWYSTRA**<br>Bydd cast yn cynnwys cystadleuwyr a ddylai fod yn 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2017 ac yn aelodau llawn o Glwb CFfI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFfI Cymru neu FfCCFfI.<br><br>Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.<br><br>Bydd methu dangos eu cerdyn aelodaeth yn arwain at daliad cosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth. | **ELIGIBILITY**<br>All competitors must be 26 years of age or under on 1 September 2017 and full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.<br><br>Competitors will be required to show their membership cards.<br><br>Failure to produce a card will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete. |
| **IECHYD A DIOGELWCH A DIOGELU**<br>Mae'n rhaid i'r holl gystadlaethau a gynhelir ar lefel Cymru gydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chyflawni'r safonau diogelwch perthnasol.<br><br>Fel rhan o'r gystadleuaeth, bydd rhaid i bob Tîm gyflwyno asesiad manwl o risgiau'r Cynhyrchiad 14 diwrnod ymlaen llaw, a dylai'r asesiad gwmpasu gweithgareddau ar ac oddi ar y llwyfan.<br><br>SYLWER: Os na dderbynnir Asesiad o Risgiau 14 diwrnod cyn y gystadleuaeth, caiff y tîm dan sylw ei ddiarddel o'r gystadleuaeth.<br><br>Rhaid i'r holl dimau gadw at Reoliadau Iechyd a Diogelwch a rheoliadau tân y theatr. Rhaid i'r holl olygfeydd ar y llwyfan fod yn wrthdan.<br><br>Anfonir copïau o reoliadau'r theatr at y timau, a rhaid cadw at y rheolau hynny. | **HEALTH & SAFETY AND SAFEGUARDING**<br>All competitions carried out at Wales level must comply with Health and Safety Legislation and meet the relevant safety standards.<br><br>All Productions MUST, as part of the competition, submit 14 days in advance a detailed Risk Assessment of the Production that covers all activities both on and off the stage.<br><br>NOTE: If a Risk Assessment is not forthcoming by the deadline of 14 days before the competition, that team will be disqualified.<br><br>All teams must abide by the Health and Safety Regulations and fire regulations of the theatre. All stage scenery must be fireproofed.<br><br>Copies of the theatre regulations will be sent to teams and must be adhered to. |

| TREFN | PROCEDURE |
|---|---|
| Bydd y gystadleuaeth ar ffurf pantomeim, a gall fod yn ddetholiadau o bantomeim* neu yn waith gwreiddiol y timau.<br><br>***Arweiniad yn unig** "Mae pantomeim yn adloniant dramatig sy'n seiliedig yn fras ar stori tylwyth teg draddodiadol, a chynhelir y gweithgarwch â chymorth canu, dawnsio, lolian, jôcs amserol a cherddoriaeth, ac ynddo, bydd y gweithgarwch yn cael ei berfformio gan gymeriadau stoc penodol, gan amlaf y 'prif lanc' (arwr), sy'n cael ei actio gan fenyw, a'r 'hen wreigan', sy'n cael ei hactio gan ddyn.<br><br>Os defnyddir gwaith sydd wedi'i gyhoeddi o fewn y cynhyrchiad, bydd **<u>rhaid</u>** i'r tîm ddarparu copïau gwreiddiol o'r sgript **<u>a'r</u>** sgript wedi'i addasu i'w defnyddio gan y beirniaid ym mhob cam o'r gystadleuaeth. Bydd trefnwyr rowndiau'r gystadleuaeth yn eich hysbysu ynghylch sawl copi sydd ei angen yn ystod bob cam. Os gwneir unrhyw newidiadau i'r gwreiddiol neu os tynnir unrhyw ddarnau o'r sgript, rhaid amlygu'r rhain gan ddangos y darnau gwreiddiol a'r newidiadau a wnaed.<br><br>***Cyfrifoldeb y tîm yw sicrhau fod y breindaliadau priodol yn cael eu talu am bob perfformiad.***<br><br>Cosbir deunydd o natur amheus. **Dylai timau gofio y byddant yn perfformio o flaen cynulleidfa <u>deuluol</u>.** | The competition shall take the form of a pantomime, which may be either excerpts from a pantomime* or the teams original work.<br><br>***For guidance only** "Pantomime is a dramatic entertainment loosely based on a traditional fairy tale in which the activity is carried on with the help of singing, dancing, clowning, topical jokes and music, in which the performance of that action is conducted by certain stock roles, usually 'principal boy' (hero) acted by a woman, and the 'dame' acted by a man."<br><br>Where published works are used within the production, the team **<u>must</u>** provide original copies of the script **<u>and the</u>** adapted script for use by the judges at all stages of the competition. The competition round organisers will advise on the quantities required at each stage. If any amendments/ cuts have been made to the original, these must be highlighted with both the original wording and the new amendments.<br><br>***It is the responsibility of the team to ensure the correct Royalties are paid for each performance.***<br><br>Material of a questionable nature will be penalised. **Teams to note they are performing to a <u>family</u> audience.** |
| **ASESU RISGIAU**<br>Fel rhan o'r gystadleuaeth, bydd rhaid i bob Tîm gyflwyno asesiad manwl o risgiau'r Cynhyrchiad 14 diwrnod ymlaen llaw, a dylai'r asesiad gwmpasu gweithgareddau ar ac oddi ar y llwyfan.<br><br><u>SYLWER:</u><br>Os na dderbynnir Asesiad o Risgiau 14 diwrnod cyn y gystadleuaeth, caiff y tîm dan sylw ei ddiarddel o'r gystadleuaeth.<br><br><u>DALIWCH SYLW HEFYD,</u> bydd gan reolwr neu reolwyr y llwyfan a'r theatr yr hawl, dan y rheolau hyn, i wrthod unrhyw weithgaredd sydd ddim yn cyflawni safonau diogelwch presennol. Mae gan y rheolwr llwyfan a staff y theatr awdurdodiad llawn i stopio cynhyrchiad sydd ddim yn ddiogel. | **RISK ASSESSMENT**<br>All productions **MUST**, as part of the competition, submit 14 days in advance a detailed Risk Assessment of the production that covers all activities both on and off the stage.<br><br><u>NOTE:</u><br>If a Risk Assessment is not forthcoming by the deadline of 14 days before the Final, that team will be disqualified.<br><br><u>ALSO NOTE,</u> that the stage and theatre manager(s) hold the right, under these rules, to refuse an activity that does not meet current safety standards. The stage manager and theatre staff have full authority to stop a production that is not safe. |

| | |
|---|---|
| Rhaid i'r holl dimau gadw at Reoliadau Iechyd a Diogelwch a rheoliadau tân y theatr. Rhaid i'r holl olygfeydd ar y llwyfan fod yn wrthdan. Anfonir copïau o reoliadau'r theatr at y timau, a rhaid cadw at y rheolau hynny.<br><br>Mae templed Asesu Risgiau ar gael o Ganolfan CFfI Cymru. | All teams must abide by the fire regulations of the theatre. All stage scenery must be fireproofed. Copies of the theatre regulations will be sent to teams.<br><br>The Risk Assessment template is available from the Wales YFC Centre. |
| **AMSERU**<br>Rhaid i'r amser ar y llwyfan fod rhwng 30 a 60 munud. Rhaid i hyn gynnwys gosod a chlirio'r set. Os treulir mwy na 60 munud ar y llwyfan, neu lai na'r isafswm gofynnol o 30 munud, bydd timau yn colli dau bwynt o'u sgôr terfynol am bob munud neu ran o funud dros neu dan yr amser hwnnw.<br><br>Caniateir hyd at 30 munud i dimau baratoi at eu perfformiad ac i gynnal ymarfer technegol.<br><br>Rhoddir manylion galluoedd technegol y theatr i'r holl dimau buddugol. | **TIMING**<br>Platform time MUST be between 30 and 60 minutes. This must include setting and striking the set. If the total platform time exceeds 60 minutes or is below the minimum requirement of 30 minutes, teams will have marks deducted at the rate of two points per minute, or part thereof, from the overall score.<br><br>A maximum of 30 minutes will be allowed for teams to prepare for their performance and use as technical run through.<br><br>Details on the theatre's technical capabalities will be provided to all winning teams. |
| **CEFN LLWYFAN**<br>Caniateir hyd at 6 cynorthwyydd nad oes rhaid iddynt fod o fewn oedran aelodaeth. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cynorthwywyr sydd o oedran aelodaeth. Rhaid i'r holl gynorthwywyr y gellir eu gweld ar y llwyfan fod yn aelodau CFfI dan 26 mlwydd oed.<br><br>***<u>Cynhyrchydd</u>***<br>Rhaid i bob cynhyrchiad gael **<u>un</u>** cynhyrchydd penodol; nid oes unrhyw gyfyngiad o ran aelodaeth yn ymwneud â'r gwaith hwn, h.y. nid oes rhaid iddo/iddi fod â cherdyn aelodaeth.<br><br>**<u>RHAID</u> i unrhyw gyfeiliant cerddorol byw** gael ei ddarparu gan aelod(au) sydd o fewn oedran aelodaeth y CFfI (nid aelodau cyswllt) a gall y cyfeilydd neu'r cyfeilyddion fod ar neu oddi ar y llwyfan. Caniateir effeithiau sain/cerddoriaeth wedi'i recordio. (Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am effeithlonrwydd nac ansawdd unrhyw system sain).<br><br>Caniateir un cerddor ychwanegol sydd dros 26 mlwydd oed, ond ni chaiff fod ar y llwyfan. (Newidiad o rheolau FfCCFfI). | **BACKSTAGE**<br>A maximum of 6 helpers who need not be of membership age will be allowed. There is no restriction of helpers who are of membership age. All helpers who are visible on stage must be YFC members under the age of 26.<br><br>***<u>Producer</u>***<br>Each production must have **<u>one</u>** appointed producer; there are no restrictions of membership which applies to this position. i.e. they do not require a membership card.<br><br>**Live musical accompaniment <u>MUST</u>** be by an in age YFC member(s) with valid membership card (not Associate Member) and can be sited on or off stage. Taped sound effects/music is permitted. (Wales YFC cannot be held responsible for the efficiency or quality of any sound system).<br><br>One additional musician over the age of 26 is allowed, but who must be sited off stage. (Amendment from the NFYFC rules). |

## GWLEDD O ADLONIANT | ENTERTAINMENT FEAST

| | |
|---|---|
| **MARCIO**<br><br>Amrywiaeth a Chydbwysedd 20<br>Gwreiddioldeb a Gwerth yr Adloniant 30<br>Cyflwyniad 25<br>Effaith Gyffredinol 25<br><br>**CYFANSWM 100** | **SCALE OF MARKS**<br><br>Variety and Balance 20<br>Originality and Entertainment Value 30<br>Presentation 25<br>Overall Effect 25<br><br>**TOTAL 100** |
| **DEFNYDD O'R THEATR**<br>Anfonir manylion Pafiliwn y Rhyl at yr holl Ffederasiynau Sirol.<br><br>Bydd manylion o'r fath yn cynnwys cynllun o'r llwyfan, y goleuadau a'r offer trydanol sydd ar gael, ac ati.<br><br>Ni ddylai effeithiau gweledol, offer trydanol ac ati sy'n eiddo i dimau sy'n cystadlu amharu ar oleuadau'r theatr, a dylai gyd-fynd â rheolau diogelwch y theatr honno.<br><br>Ni fydd CFfI Cymru na Rheolwyr y Theatr yn gyfrifol am ddarparu unrhyw offer na deunyddiau sydd ddim ar gael yn y theatr ac wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r offer sydd ar gael.<br><br>Ni chaniateir setiau bocs.<br><br>Byddwn yn darparu cefnlen du neu wyn ar gyfer y rowndiau terfynol, a gallwch ddefnyddio un o'r rhain. Gallwch chi ddarparu eich cefnlen eich hun ond ni ellir ei symud a bydd yn ei lle trwy gydol y perfformiad.<br><br>Bydd rhaid i dimau sy'n cystadlu lunio cynllun a'i anfon at Ganolfan CFfI Cymru 14 diwrnod cyn y Gystadleuaeth, yn dangos trefn y llwyfan. Dylai manylion unrhyw fewnosodiadau i'w cynnwys o fewn gosodiad y llenni, cefnlenni, rhestr o ddodrefn sylfaenol, rhestr o giwiau goleuo a gwybodaeth am unrhyw wisgoedd/celfi ac ati sydd wedi cael eu paratoi gan yr aelodau gael eu cynnwys gyda rhestr y cast i'w cynnwys yn y rhaglen.<br><br>Rhaid i'r holl dimau gadw at Reoliadau Iechyd a Diogelwch a rheoliadau tân y theatr. Rhaid i'r holl olygfeydd ar y llwyfan fod yn wrthdan. Anfonnir copïau o reoliadau'r theatr at y timau, a rhaid cadw at y rheolau hynny. | **USE OF THEATRE**<br>Details of the Rhyl Pavilion will be forwarded to all County Federations.<br><br>Such details will include a plan of the stage, available lighting, electrical equipment, etc.<br><br>Visual effects, electrical appliances, etc., belonging to competing teams must not interfere with the theatre lighting and must be in accordance with the safety regulations pertaining to that theatre.<br><br>Wales YFC and the Theatre Management will note be responsible for providing any equipment that is not available in the theatre and included on the list of available equipment.<br><br>No box sets allowed.<br><br>We will provide a black or white back drop for the finals and you will be able to use any one of these. You can provide your own back drop but this will not be flown in and will be in place for the entire performance.<br><br>Teams competing must prepare and submit a plan to the Wales YFC Centre fourteen days prior to the Competition, showing the stage setting. Details of any inserts to be included in the curtain setting, back-cloths, a list of basic furniture, a lighting cue sheet and any information about costumes/props, etc., that have been prepared by the members should be attached together with a cast list for inclusion in the programme.<br><br>All teams must abide by the fire regulations of the theatre. All stage scenery must be fireproofed. Copies of the theatre regulations will be sent to teams. |

## GWLEDD O ADLONIANT | ENTERTAINMENT FEAST

| | |
|---|---|
| **GWOBRAU**<br>Bydd y tîm buddugol yn derbyn tlws.<br><br>Bydd y tîm buddugol, y perfformiwr mwyaf addawol a'r berfformwraig fwyaf addawol yn cael tlysau.<br><br>Cyflwynir tlws am 'Lwyddiant Technegol'. | **AWARDS**<br>The winning team will receive a trophy.<br><br>The first placed team and most promising male and female performer will receive trophies.<br><br>A trophy will be awarded for 'Technical Achievements'. |
| **TREFN Y CYSTADLU**<br>Tynnir enwau o het i bennu trefn y cystadlu yng nghyfarfod y Pwyllgor Cystadlaethau ym mis Hydref. Rhaid anfon blaendal o £250 i Swyddfa CFfI Cymru erbyn 29 Medi. Bydd unrhyw dîm sy'n tynnu'n ôl o'r gystadleuaeth yn colli'r blaendal. | **ORDER OF COMPETING**<br>The draw for order of competing will be undertaken at the Competitions meeting in October. A deposit of £250 must be received by the Wales Centre by the 29th September. Any team wishing to withdraw from the competition will loose their deposit. |
| **CYFFREDINOL**<br>Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran cystadleuwyr nac am drefniadau llety.<br><br>Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.<br><br>Mae CFfI Cymru yn cadw'r hawl i newid neu ganslo unrhyw un o'r rheolau uchod.<br><br>SYLWER: Bydd marciau'r gystadleuaeth hon yn cyfrif at Dlws y Western Mail. | **GENERAL**<br>Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors nor for arrangements for accommodation.<br><br>The adjudicators' decision will be final.<br><br>Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.<br><br>NOTE: This competition will carry points towards the Western Mail Trophy. |

## PANTOMEIM ADRAN SAESNEG
## ENGLISH LANGUAGE PANTOMIME

| | |
|---|---|
| **LLEOLIAD**<br>Cynhelir y rowndiau terfynol ar 3 a 4 Mawrth 2018 ym Mhafiliwn y Rhyl, Gogledd Cymru. | **VENUE**<br>The finals will be held on the 3rd & 4th March 2018 at Rhyl Pavilion, North Wales. |
| **CYNRYCHIOLAETH**<br>Gall un tîm o bob sir gystadlu yn rowndiau terfynol Cymru. | **REPRESENTATION**<br>Counties may enter one team for the Wales final. |
| **CYMHWYSTRA**<br>Bydd cast yn cynnwys cystadleuwyr a ddylai fod yn 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2017 ac yn aelodau llawn o Glwb CFfI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFfI Cymru neu FfCCFfI.<br><br>Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.<br><br>Bydd methu dangos eu cerdyn aelodaeth yn arwain at daliad cosb o £10. <u>Ni</u> chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth. | **ELIGIBILITY**<br>All competitors must be 26 years of age or under on 1 September 2017 and full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.<br><br>Competitors will be required to show their membership cards.<br><br>Failure to produce a card will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will <u>not</u> be allowed to compete. |
| **IECHYD A DIOGELWCH A DIOGELU**<br>Mae'n rhaid i'r holl gystadlaethau a gynhelir ar lefel Cymru gydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chyflawni'r safonau diogelwch perthnasol.<br><br>Fel rhan o'r gystadleuaeth, bydd rhaid i bob Tîm gyflwyno asesiad manwl o risgiau'r Cynhyrchiad 14 diwrnod ymlaen llaw, a dylai'r asesiad gwmpasu gweithgareddau ar ac oddi ar y llwyfan.<br><br>SYLWER:<br>Os na dderbynnir Asesiad o Risgiau 14 diwrnod cyn y gystadleuaeth, caiff y tîm dan sylw ei ddiarddel o'r gystadleuaeth.<br><br>Rhaid i'r holl dimau gadw at Reoliadau Iechyd a Diogelwch a rheoliadau tân y theatr. Rhaid i'r holl olygfeydd ar y llwyfan fod yn wrthdan.<br><br>Anfonir copïau o reoliadau'r theatr at y timau, a rhaid cadw at y rheolau hynny. | **HEALTH & SAFETY AND SAFEGUARDING**<br>All competitions carried out at Wales level must comply with Health and Safety Legislation and meet the relevant safety standards.<br><br>All Productions MUST, as part of the competition, submit 14 days in advance a detailed Risk Assessment of the Production that covers all activities both on and off the stage.<br><br>NOTE:<br>If a Risk Assessment is not forthcoming by the deadline of 14 days before the competition, that team will be disqualified.<br><br>All teams must abide by the Health and Safety Regulations and fire regulations of the theatre. All stage scenery must be fireproofed.<br><br>Copies of the theatre regulations will be sent to teams and must be adhered to. |

## GWLEDD O ADLONIANT | ENTERTAINMENT FEAST

| | |
|---|---|
| **TREFN**<br>Bydd y gystadleuaeth ar ffurf pantomeim, a gall fod yn ddetholiadau o bantomeim* neu yn waith gwreiddiol y timau.<br><br>***Arweiniad yn unig** "Mae pantomeim yn adloniant dramatig sy'n seiliedig yn fras ar stori tylwyth teg draddodiadol, a chynhelir y gweithgarwch â chymorth canu, dawnsio, lolian, jôcs amserol a cherddoriaeth, ac ynddo, bydd y gweithgarwch yn cael ei berfformio gan gymeriadau stoc penodol, gan amlaf y 'prif lanc' (arwr), sy'n cael ei actio gan fenyw, a'r 'hen wreigan', sy'n cael ei hactio gan ddyn.<br><br>Os defnyddir gwaith sydd wedi'i gyhoeddi o fewn y cynhyrchiad, bydd **<u>rhaid</u>** i'r tîm ddarparu copïau gwreiddiol o'r sgript **<u>a'r</u>** sgript wedi'i addasu i'w defnyddio gan y beirniaid ym mhob cam o'r gystadleuaeth. Bydd trefnwyr rowndiau'r gystadleuaeth yn eich hysbysu ynghylch sawl copi sydd ei angen yn ystod bob cam. Os gwneir unrhyw newidiadau i'r gwreiddiol neu os tynnir unrhyw ddarnau o'r sgript, rhaid amlygu'r rhain gan ddangos y darnau gwreiddiol a'r newidiadau a wnaed.<br><br>***Cyfrifoldeb y tîm yw sicrhau fod y breindaliadau priodol yn cael eu talu am bob perfformiad.***<br><br>Cosbir deunydd o natur amheus. **Dylai timau gofio y byddant yn perfformio o flaen cynulleidfa <u>deuluol</u>.** | **PROCEDURE**<br>The competition shall take the form of a pantomime, which may be either excerpts from a pantomime* or the teams original work.<br><br>***For guidance only** "Pantomime is a dramatic entertainment loosely based on a traditional fairy tale in which the activity is carried on with the help of singing, dancing, clowning, topical jokes and music, in which the performance of that action is conducted by certain stock roles, usually 'principal boy' (hero) acted by a woman, and the 'dame' acted by a man."<br><br>Where published works are used within the production, the team **<u>must</u>** provide original copies of the script **<u>and the</u>** adapted script for use by the judges at all stages of the competition. The competition round organisers will advise on the quantities required at each stage. If any amendments/ cuts have been made to the original, these must be highlighted with both the original wording and the new amendments.<br><br>***It is the responsibility of the team to ensure the correct Royalties are paid for each performance.***<br><br>Material of a questionable nature will be penalised. **Teams to note they are performing to a <u>family</u> audience.** |
| **ASESU RISGIAU**<br>Fel rhan o'r gystadleuaeth, bydd rhaid i bob Tîm gyflwyno asesiad manwl o risgiau'r Cynhyrchiad 14 diwrnod ymlaen llaw, a dylai'r asesiad gwmpasu gweithgareddau ar ac oddi ar y llwyfan.<br><br><u>SYLWER:</u><br>Os na dderbynnir Asesiad o Risgiau 14 diwrnod cyn y gystadleuaeth, caiff y tîm dan sylw ei ddiarddel o'r gystadleuaeth.<br><br><u>DALIWCH SYLW HEFYD,</u> bydd gan reolwr neu reolwyr y llwyfan a'r theatr yr hawl, dan y rheolau hyn, i wrthod unrhyw weithgaredd sydd ddim yn cyflawni safonau diogelwch presennol. Mae gan y rheolwr llwyfan a staff y theatr awdurdodiad llawn i stopio cynhyrchiad sydd ddim yn ddiogel.<br>Rhaid i'r holl dimau gadw at Reoliadau Iechyd a | **RISK ASSESSMENT**<br>All productions **MUST**, as part of the competition, submit 14 days in advance a detailed Risk Assessment of the production that covers all activities both on and off the stage.<br><br><u>NOTE:</u><br>If a Risk Assessment is not forthcoming by the deadline of 14 days before the Final, that team will be disqualified.<br><br><u>ALSO NOTE,</u> that the stage and theatre manager(s) hold the right, under these rules, to refuse an activity that does not meet current safety standards. The stage manager and theatre staff have full authority to stop a production that is not safe. |

| | |
|---|---|
| Diogelwch a rheoliadau tân y theatr. Rhaid i'r holl olygfeydd ar y llwyfan fod yn wrthdan. Anfonir copïau o reoliadau'r theatr at y timau, a rhaid cadw at y rheolau hynny.<br><br>Mae templed Asesu Risgiau ar gael o Ganolfan CFfI Cymru. | All teams must abide by the fire regulations of the theatre. All stage scenery must be fireproofed. Copies of the theatre regulations will be sent to teams.<br><br>The Risk Assessment template is available from the Wales YFC Centre. |
| **AMSERU**<br>Rhaid i'r amser ar y llwyfan fod rhwng 30 a 60 munud. Rhaid i hyn gynnwys gosod a chlirio'r set. Os treulir mwy na 60 munud ar y llwyfan, neu lai na'r isafswm gofynnol o 30 munud, bydd timau yn colli dau bwynt o'u sgôr terfynol am bob munud neu ran o funud dros neu dan yr amser hwnnw.<br><br>Caniateir hyd at 30 munud i dimau baratoi at eu perfformiad ac i gynnal ymarfer technegol.<br><br>Rhoddir manylion galluoedd technegol y theatr i'r holl dimau buddugol. | **TIMING**<br>Platform time MUST be between 30 and 60 minutes. This must include setting and striking the set. If the total platform time exceeds 60 minutes or is below the minimum requirement of 30 minutes, teams will have marks deducted at the rate of two points per minute, or part thereof, from the overall score.<br><br>A maximum of 30 minutes will be allowed for teams to prepare for their performance and use as technical run through.<br><br>Details on the theatre's technical capabalities will be provided to all winning teams. |
| **CEFN LLWYFAN**<br>Caniateir hyd at 6 cynorthwyydd nad oes rhaid iddynt fod o fewn oedran aelodaeth. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cynorthwywyr sydd o oedran aelodaeth. Rhaid i'r holl gynorthwywyr y gellir eu gweld ar y llwyfan fod yn aelodau CFfI dan 26 mlwydd oed.<br><br>***<u>Cynhyrchydd</u>***<br>Rhaid i bob cynhyrchiad gael **<u>un</u>** cynhyrchydd penodol; nid oes unrhyw gyfyngiad o ran aelodaeth yn ymwneud â'r gwaith hwn, h.y. nid oes rhaid iddo/iddi fod â cherdyn aelodaeth.<br><br>**<u>RHAID</u> i unrhyw gyfeiliant cerddorol byw** gael ei ddarparu gan aelod(au) sydd o fewn oedran aelodaeth y CFfI (nid aelodau cyswllt) a gall y cyfeilydd neu'r cyfeilyddion fod ar neu oddi ar y llwyfan. Caniateir effeithiau sain/cerddoriaeth wedi'i recordio. (Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am effeithlonrwydd nac ansawdd unrhyw system sain).<br><br>Caniateir un cerddor ychwanegol sydd dros 26 mlwydd oed, ond ni chaiff fod ar y llwyfan. (Newidiad o rheolau FfCCFfI). | **BACKSTAGE**<br>A maximum of 6 helpers who need not be of membership age will be allowed. There is no restriction of helpers who are of membership age. All helpers who are visible on stage must be YFC members under the age of 26.<br><br>***<u>Producer</u>***<br>Each production must have **<u>one</u>** appointed producer; there are no restrictions of membership which applies to this position. i.e. they do not require a membership card.<br><br>**Live musical accompaniment <u>MUST</u>** be by an in age YFC member(s) with valid membership card (not Associate Member) and can be sited on or off stage. Taped sound effects/music is permitted. (Wales YFC cannot be held responsible for the efficiency or quality of any sound system).<br><br>One additional musician over the age of 26 is allowed, but who must be sited off stage. (Amendment from the NFYFC rules). |

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU**
**WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2017-2018 RULES**

## GWLEDD O ADLONIANT | ENTERTAINMENT FEAST

| **MARCIO** | **SCALE OF MARKS** |
|---|---|
| Amrywiaeth a Chydbwysedd 20<br>Gwreiddioldeb a Gwerth yr Adloniant 30<br>Cyflwyniad 25<br>Effaith Gyffredinol 25<br><br>**CYFANSWM 100** | Variety and Balance 20<br>Originality and Entertainment Value 30<br>Presentation 25<br>Overall Effect 25<br><br>**TOTAL 100** |
| **DEFNYDD O'R THEATR** | **USE OF THEATRE** |
| Anfonir manylion Pafiliwn y Rhyl at yr holl Ffederasiynau Sirol. | Details of the Rhyl Pavilion will be forwarded to all County Federations. |
| Bydd manylion o'r fath yn cynnwys cynllun o'r llwyfan, y goleuadau a'r offer trydanol sydd ar gael, ac ati. | Such details will include a plan of the stage, available lighting, electrical equipment, etc. |
| Ni ddylai effeithiau gweledol, offer trydanol ac ati sy'n eiddo i dimau sy'n cystadlu amharu ar oleuadau'r theatr, a dylai gyd-fynd â rheolau diogelwch y theatr honno. | Visual effects, electrical appliances, etc., belonging to competing teams must not interfere with the theatre lighting and must be in accordance with the safety regulations pertaining to that theatre. |
| Ni fydd CFfI Cymru na Rheolwyr y Theatr yn gyfrifol am ddarparu unrhyw offer na deunyddiau sydd ddim ar gael yn y theatr ac wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r offer sydd ar gael. | Wales YFC and the Theatre Management will note be responsible for providing any equipment that is not available in the theatre and included on the list of available equipment. |
| Ni chaniateir setiau bocs. | No box sets allowed. |
| Byddwn yn darparu cefnlen du neu wyn ar gyfer y rowndiau terfynol, a gallwch ddefnyddio un o'r rhain. Gallwch chi ddarparu eich cefnlen eich hun ond ni ellir ei symud a bydd yn ei lle trwy gydol y perfformiad. | We will provide a black or white back drop for the finals and you will be able to use any one of these. You can provide your own back drop but this will not be flown in and will be in place for the entire performance. |
| Bydd rhaid i dimau sy'n cystadlu lunio cynllun a'i anfon at Ganolfan CFfI Cymru 14 diwrnod cyn y Gystadleuaeth, yn dangos trefn y llwyfan. Dylai manylion unrhyw fewnosodiadau i'w cynnwys o fewn gosodiad y llenni, cefnlenni, rhestr o ddodrefn sylfaenol, rhestr o giwiau goleuo a gwybodaeth am unrhyw wisgoedd/celfi ac ati sydd wedi cael eu paratoi gan yr aelodau gael eu cynnwys gyda rhestr y cast i'w cynnwys yn y rhaglen. | Teams competing must prepare and submit a plan to the Wales YFC Centre fourteen days prior to the Competition, showing the stage setting. Details of any inserts to be included in the curtain setting, back-cloths, a list of basic furniture, a lighting cue sheet and any information about costumes/props, etc., that have been prepared by the members should be attached together with a cast list for inclusion in the programme. |
| Rhaid i'r holl dimau gadw at Reoliadau Iechyd a Diogelwch a rheoliadau tân y theatr. Rhaid i'r holl olygfeydd ar y llwyfan fod yn wrthdan. Anfonnir copïau o reoliadau'r theatr at y timau, a rhaid cadw at y rheolau hynny. | All teams must abide by the fire regulations of the theatre. All stage scenery must be fireproofed. Copies of the theatre regulations will be sent to teams. |

## GWLEDD O ADLONIANT | ENTERTAINMENT FEAST

| | |
|---|---|
| **GWOBRAU**<br>Bydd y tîm buddugol yn derbyn tlws.<br><br>Bydd y tîm buddugol, y perfformiwr mwyaf addawol a'r berfformwraig fwyaf addawol yn cael tlysau.<br><br>Cyflwynir tlws am 'Lwyddiant Technegol'. | **AWARDS**<br>The winning team will receive a trophy.<br><br>The first placed team and most promising male and female performer will receive trophies.<br><br>A trophy will be awarded for 'Technical Achievements'. |
| **TREFN Y CYSTADLU**<br>Tynnir enwau o het i bennu trefn y cystadlu yng nghyfarfod y Pwyllgor Cystadlaethau ym mis Hydref. Rhaid anfon blaendal o £250 i Swyddfa CFfI Cymru erbyn 29 Medi. Bydd unrhyw dîm sy'n tynnu'n ôl o'r gystadleuaeth yn colli'r blaendal. | **ORDER OF COMPETING**<br>The draw for order of competing will be undertaken at the Competitions meeting in October. A deposit of £250 must be received by the Wales Centre by the 29th September. Any team wishing to withdraw from the competition will loose their deposit. |
| **CYFFREDINOL**<br>Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran cystadleuwyr nac am drefniadau llety.<br><br>Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.<br><br>Mae CFfI Cymru yn cadw'r hawl i newid neu ganslo unrhyw un o'r rheolau uchod.<br><br>SYLWER: Bydd marciau'r gystadleuaeth hon yn cyfrif at Dlws y Western Mail. | **GENERAL**<br>Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors nor for arrangements for accommodation.<br><br>The adjudicators' decision will be final.<br><br>Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.<br><br>NOTE: This competition will carry points towards the Western Mail Trophy. |

## AELOD IAU Y FLWYDDYN
## JUNIOR MEMBER OF THE YEAR

| | |
|---|---|
| **LLEOLIAD**<br>Cynhelir y rowndiau terfynol ar 3 a 4 Mawrth 2018 ym Mhafiliwn y Rhyl, Gogledd Cymru. | **VENUE**<br>The final will be held on 3rd March 2018 at The Rhyl Pavilion, North Wales. |
| **CYNRYCHIOLAETH**<br>Gallu un cystadleuydd o bob Ffederasiwn Sirol yn rownd derfynol Cymru. | **REPRESENTATION**<br>County Federation may enter one competitor for the Wales final. |
| **CYMHWYSTRA**<br><br>Bydd rhaid i'r cystadleuydd fod yn 17 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2017 ac yn aelod llawn o Glwb CFfI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFfI Cymru neu FfCCFfI.<br><br>Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.<br><br>Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth yn arwain at daliad cosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth. | **ELIGIBILITY**<br><br>The competitor shall be 17 years or under on 1st September 2017 and a full member of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.<br><br>Competitors will be required to show their membership cards.<br><br>Failure to produce a card will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete. |
| **EILYDDION**<br>Os bydd cystadleuydd sydd wedi cyrraedd Rownd Derfynol FfCCFfI yn gorfod tynnu'n ôl o'r gystadleuaeth, yna bydd y cystadleuydd uchaf nesaf o glwb sy'n gysylltiedig â FfCCFfI yn cynrychioli Cymru. | **SUBSTITUTION**<br>If the competitor through to the NFYFC Final has to withdraw from the competition, then the next highest placed competitor affiliated to NFYFC will represent Wales. |
| **TREFN**<br>**RHAN 1 – FFURFLEN CRYNODEB**<br><u>Bythefnos</u> cyn Rownd Derfynol CFfI Cymru, bydd yn ofynnol i gystadleuwyr gyflwyno ffurflen crynodeb wedi'i llenwi (ar gael ar wefan staff yn unig CFfI Cymru) na ddylai fod yn hwy na dwy ochr o ddalen A4, yn amlinellu eu gweithgarwch yn y CFfI. (Dylid rhoi pwyslais arbennig ar eu gweithgarwch ar lefel Clwb).<br><br>**RHAN 2 – CYFLWYNIAD A CHYFWELIAD FFURFIOL**<br>Gofynnir i'r Cystadleuydd baratoi cyflwyniad gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft PowerPoint, yn cynnwys eu profiad yn y CFfI ar lefelau'r Clwb a'r | **PROCEDURE**<br>**PART 1 – SYNOPSIS FORM**<br><u>Two weeks</u> prior to the Wales YFC Final competitors will be required to submit a completed synopsis form (available on the Wales YFC staff only website) to be no more than 2 sides of A4, detailing their YFC activities. (Special emphasis should be placed on their involvement at Club level).<br><br>**PART 2 – PRESENTATION & FORMAL INTERVIEW**<br>The Competitor is requested to prepare a presentation using Microsoft power point software to include the competitors experiences gained at |

| | |
|---|---|
| Ffederasiwn Sirol, a dylid cynnwys gweithgareddau oddi allan i'r CFfI.<br><br>Dylai'r cyflwyniad fod yn seiliedig ar brofiadau a gafwyd yn y 12 mis cyn rownd derfynol y gystadleuaeth. Disgwylir felly i gystadleuwyr ddatblygu'r cyflwyniadau a wneir ganddynt yn rownd Ranbarthol y gystadleuaeth yn gynharach yn y flwyddyn.<br><br>Bydd y cyflwyniad hwn yn ategu eich Ffurflen Crynodeb.<br><br>Amseru – ddim llai na 3 munud a ddim mwy na 10 munud.<br><br>Gwneir y cyflwyniad o flaen y beirniaid.<br><br>Pan gwblheir y cyflwyniad, bydd y beirniaid yn holi cwestiynau ynghylch y Ffurflen Crynodeb, ynghylch gwybodaeth y cystadleuydd o'r CFfI a/neu faterion cyfoes neu newyddion sy'n ymwneud â phobl ifanc.<br><br>Darperir gliniadur a thaflunydd yn Rownd Derfynol CFfI Cymru. | YFC Club, County and including activities outside of YFC.<br><br>The presentation should be based on experiences gained in the 12 months before the competition final. Competitors are therefore expected to build on the presentations they give at the Area round of the competition held earlier in the year.<br><br>This presentation is to compliment your Synopsis Form<br><br>Timing – no less than 3 and no more than 10 minutes.<br><br>The presentation will be made to the judges.<br><br>On completion of the presentation judges will ask questions on the Synopsis Form, on the competitor's knowledge of YFC and/or current issues or news relating to young people.<br><br>At the Wales YFC Final a laptop and projector will be provided. |
| **MARCIO**<br><br>Ffurflen Crynodeb 30<br>Cyflwyniad i'r beirniaid 30<br>(gweithgareddau yn y CFfI a rhai eraill)<br>Cyfweliad Ffurfiol 30<br>Argraff 10<br><br>**CYFANSWM 100**<br><br>Cosbau: Bydd y cosbau amser yn un marc am bob hanner munud (neu ran o hanner munud) dros neu dan yr amser a ganiateir. Gall y beirniaid hefyd dynnu marciau os bydd y timau yn defnyddio llai o amser na'r hyn a ganiateir. | **SCALE OF MARKS**<br><br>Synopsis Form 30<br>Presentation to judges 30<br>(activities inside & outside YFC)<br>Formal Interview 30<br>Appearance 10<br><br>**TOTAL 100**<br><br>Penalties: Time deductions are one mark for each half-minute (or part thereof) over or under the allocated time of the presentation. The judges may also deduct marks if the timings are below half of what is expected. |
| **GWOBRAU**<br>Gwahoddir yr aelod a ddewisir i gynrychioli CFfI Cymru yn y Rownd Derfynol Genedlaethol. (Siroedd sy'n Aelodau Cyswllt o FfCCFfI).<br><br>Dyfernir Tlws Welsh Royal Crystal i'r cystadleuydd buddugol. | **AWARDS**<br>The selected member will be invited to represent Wales in the National Final. (Counties affiliated to NFYFC).<br><br>A Welsh Royal Crystal Trophy will be awarded to the winning competitor. |

## GWLEDD O ADLONIANT | ENTERTAINMENT FEAST

| **CYFFREDINOL** | **GENERAL** |
|---|---|
| Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran cystadleuwyr nac am drefniadau llety.<br><br>Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol.<br><br>Mae CFfI Cymru yn cadw'r hawl i newid neu ganslo unrhyw un o'r rheolau uchod.<br><br>SYLWER:<br>Fe FYDD marciau'r gystadleuaeth hon yn cyfrif at Dlws Beynon Thomas. | Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors nor for arrangements for accommodation.<br><br>The adjudicator's decision will be final.<br><br>Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.<br><br>NOTE:<br>This competition will carry points towards the Beynon Thomas Trophy. |

## AELOD HŶN Y FLWYDDYN
## SENIOR MEMBER OF THE YEAR

| | |
|---|---|
| **LLEOLIAD**<br>Cynhelir y rowndiau terfynol ar 3 a 4 Mawrth 2018 ym Mhafiliwn y Rhyl, Gogledd Cymru. | **VENUE**<br>The final will be held on 3rd March 2018 at The Rhyl, Pavilion, North Wales. |
| **CYNRYCHIOLAETH**<br>Gallu un cystadleuydd o bob Ffederasiwn Sirol gystadlu yn rownd derfynol Cymru. | **REPRESENTATION**<br>County Federation may enter one competitor for the Wales final. |
| **MEINI PRAWF CYMHWYSTRA**<br>Bydd rhaid i'r cystadleuydd fod yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2017 ac yn aelod llawn o Glwb CFfI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFfI Cymru neu FfCCFfI.<br><br>Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.<br><br>Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth yn arwain at daliad cosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth. | **ELIGIBILITY**<br>The competitor shall be 18 years or over and 26 years or under on 1st September 2017 and a full member of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.<br><br>Competitors will be required to show their membership cards.<br><br>Failure to produce a card will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete. |
| **EILYDDION**<br>Os bydd cystadleuydd sydd wedi cyrraedd Rownd Derfynol FfCCFfI yn gorfod tynnu'n ôl o'r gystadleuaeth, yna bydd y cystadleuydd uchaf nesaf o glwb sy'n gysylltiedig â FfCCFfI yn cynrychioli Cymru. | **SUBSTITUTION**<br>If the competitor through to the NFYFC Final has to withdraw from the competition, then the next highest placed competitor affiliated to NFYFC will represent Wales. |
| **TREFN**<br>**RHAN 1**<br>Bythefnos cyn y Rownd Derfynol yn y Wledd o Adloniant, bydd yn ofynnol i gystadleuwyr lenwi ffurflen crynodeb a'i hanfon i Ganolfan CFfI, i ddangos manylion eu gweithgareddau CFfI.<br><br>Argymhellir defnyddio'r ffurflen hon ar lefel Sirol. (Dylid rhoi pwyslais arbennig ar eu gweithgarwch ar lefel Clwb).<br><br>**RHAN 2**<br>Bydd panel o feirniaid yn cyfweld y cystadleuwyr yn y Wledd o Adloniant, mewn awyrgylch | **PROCEDURE**<br>**PART 1**<br>Two weeks prior to the Final at the Entertainment Feast, competitors will be required to complete and submit to the YFC Centre a synopsis form provided, which will show details of their YFC activities.<br><br>(Special emphasis should be placed on their involvement at Club level).<br><br>**PART 2**<br>Competitors will be interviewed at the Entertainment Feast by a panel of Judges, in an |

| | |
|---|---|
| anffurfiol. | informal atmosphere. |
| **RHAN 3**<br>Cyhoeddir y tri chystadleuydd gorau ar ôl i'r gystadleuaeth orffen.<br><br>Yna, bydd yn ofynnol i'r aelodau hyn ateb un cwestiwn ar y llwyfan o flaen cynulleidfa'r Gystadleuaeth Adloniant yn ystod sesiwn yr hwyr. Bydd y cwestiwn wedi cael ei ofyn iddynt yn y cyfweliad, ac ni fydd eu hateb ar y llwyfan yn cyfrannu at ganlyniad y gystadleuaeth.<br><br>Cyhoeddir y canlyniad terfynol yn ystod noson y Wledd o Adloniant.<br><br>**RHAN 4**<br>Disgwylir i enillydd y gystadleuaeth weithio gyda CFfI Cymru am gyfnod o 12 mis trwy gyflwyno 6 adroddiad ysgrifenedig (a lluniau) ynghylch gweithgareddau'r CFfI. Defnyddir y rhain ar wefan CFfI Cymru ac anfonir hwyr at bapurau newydd cenedlaethol. | **PART 3**<br>The top three competitors will be announced after the interviews have finished.<br><br>These members will then be required to answer one question on stage in front of the Entertainment Feast Audience during the evening session. The question will have been asked to them in the interview, their answer on stage will not contribute to the result of the competition.<br><br>The overall result will be announced during the evening of the Entertainment Feast.<br><br>**PART 4**<br>The winner of the competition is expected to work with Wales YFC for a period of 12 months by submitting 6 written reports (and photographs) of YFC activities. These will be used on the Wales YFC website and will be sent to National newspapers. |
| **AMCANION**<br>Amcan y gystadleuaeth yw dewis aelod sydd wedi dangos ei fod yn cyfranogi ym mhob agwedd o fudiad y CFfI. Bydd y beirniaid yn edrych am:<br><br>• Weithgarwch ar lefel clwb yn ystod y cyfnod aelodaeth.<br>• Gweithgarwch cyffredinol yn y CFfI. (h.y. ar lefelau clwb, sir, rhanbarth neu genedlaethol)<br>• Cyfranogiad penodol mewn gweithgareddau yn ystod y 12 mis blaenorol. (cadwraeth, cystadlaethau, recriwtio, trefnu rhaglen, elusen, chwaraeon, swyddog clwb)<br>• Ymroddiad cyffredinol i'r CFfI - ymwybyddiaeth o ddiddordeb cyd-aelodau yn y CFfI a barn wrthrychol am ddyfodol y sefydliad.<br>• Gwybodaeth o'r CFfI ar lefelau Clwb, Sir, Rhanbarth a Chenedlaethol a bod wedi rhannu'r wybodaeth honno dros y cyfnod 12 mis cyn y rownd derfynol. | **OBJECTIVES**<br>The objective of the competition is to select a member who has shown that they are involved in all aspects of the YFC Movement. Judges will be looking for:<br><br>• Involvement at club level for period of membership.<br>• Overall YFC involvement. (i.e. club, county, area or national)<br>• Specific involvement in activities in the previous 12 months. (conservation, competitions, recruitment, programming, charity, sport, club officer)<br>• General commitment to YFC - awareness of fellow members' interests in YFC and objective view of the future of the organisation.<br>• Knowledge of the YFC at Club, County, Area and National levels and to share that knowledge over the 12 month period following the final. |
| **GWOBRAU**<br>Gwahoddir yr aelod a ddewisir i gynrychioli CFfI Cymru yn y Rownd Derfynol Genedlaethol. (Siroedd sy'n Aelodau Cyswllt o FfCCFfI). | **AWARDS**<br>The selected member will be invited to represent Wales in the National Final. (Counties affiliated to NFYFC). |

| | |
|---|---|
| Dyfernir Tlws Welsh Royal Crystal i'r cystadleuydd buddugol. | A Welsh Royal Crystal Trophy will be awarded to the winning competitor. |
| **CYFFREDINOL**<br>Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran y cystadleuwyr nac am drefniadau llety.<br><br>Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.<br>Mae CFfI Cymru yn cadw'r hawl i addasu neu ddiddymu unrhyw rai o'r rheolau hyn.<br><br>SYLWER:<br>Bydd canlyniadau'r gystadleuaeth hon yn cyfrif tuag at Dlws y Western Mail. | **GENERAL**<br>Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors nor for arrangements for accommodation.<br><br>The adjudicator's decision will be final.<br>Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.<br><br>NOTE:<br>This competition will carry points towards the Western Mail Trophy. |